# PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS

Dydd Gwener, 7 Chwefror 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lloyd-Jones (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
L. Edwards, D. Evans, K. Evans, L. George, J.K. Howell, M. James, S. Joseph, A. Lloyd-Jones, W. Powell, J.G. Prosser, Roffe, E.M.J.G. Schiavone and Thomas

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
J. Laimann, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.30 yb - 2.25 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB A MATERION PERSONOL

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Rob Summons (Cyngor Sir Penfro).

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd Emlyn Schiavone (Cyngor Sir Caerfyrddin) i'w gyfarfod cyntaf fel Aelod o'r Panel Heddlu a Throseddu.

Estynnodd y Cadeirydd longyfarchiadau i'r Prif Gwnstabl ar ôl iddo ennill Medal Heddlu'r Frenhines am Wasanaeth Nodedig.

**NEWID TREFN Y MATERION**
Cytunodd y Panel, ar gais y Cadeirydd, i newid trefn y materion ar yr agenda er mwyn symud Eitem 10 (Cwyn yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throseddu gan R.V.) yn ei hôl i'w thrafod ar ôl Eitem 13 (Cymdeithas Genedlaethol y Paneli Heddlu [Tân] a Throseddu).

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol yn y cyfarfod.

## 3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR

### 3.1. 25AIN HYDREF 2019

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2019 gan eu bod yn gywir.**

### 3.2. 6ED TACHWEDD 2019

Mewn perthynas ag Eitem 3 ar yr Agenda (Cynhadledd Plismona ac Iechyd Meddwl) awgrymwyd, er cywirdeb, y dylid newid brawddeg olaf y paragraff cyntaf er mwyn cyfeirio at y Cynghorydd Powell yn hytrach na'r Cynghorydd Williams.

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd, 2019 yn gywir yn amodol ar y newid a nodwyd uchod.**

## 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION (OS OES RHAI)

**6 Tachwedd 2019 – Eitem 5 y Cofnodion**

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â phenderfyniadau 5.2, 5.3 a 5.4, awgrymwyd bod y Panel yn gohirio'r drafodaeth ynghylch sut i gamu ymlaen tan y cyfarfod nesaf, pan fydd y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn cael ei darparu.

## 5. PRAESEPT YR HEDDLU

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i adroddiad y Comisiynydd ar braesept arfaethedig yr heddlu am 2020/21. Dywedwyd wrth y Panel y gallai wneud y penderfyniad naill ai i gymeradwyo, gwrthod, neu roi feto i'r praesept arfaethedig yn y cyfarfod, ac ar ôl hynny byddai'n rhaid iddo roi gwybod i'r Comisiynydd am ei benderfyniad. Gallai'r penderfyniad i gymeradwyo neu wrthod gael ei wneud gan fwyafrif syml ond roedd yn rhaid i bleidlais feto gael ei gwneud gan fwyafrif o ddwy ran o dair o aelodaeth y Panel cyfan. Byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i ddeg aelod o'r panel oedd yn bresennol yn y cyfarfod gefnogi'r feto. Dywedwyd pe bai'r Panel yn dewis rhoi feto, na fyddai'r Comisiynydd yn gallu cyflwyno'r praesept arfaethedig a byddai'n rhaid iddo gyhoeddi ymateb i adroddiad y Panel, gan nodi praesept arfaethedig arall, erbyn 21 Chwefror 2020. Ni fyddai'r Panel yn gallu rhoi feto i'r praesept arfaethedig diwygiedig, dim ond penderfynu ei gymeradwyo neu ei wrthod.

Rhoddodd y Cynghorydd Keith Evans (Arweinydd y Panel o ran Cyllid) gyflwyniad ynghylch sut oedd y Panel wedi craffu ar y cynnig ynghylch y praesept gan gynnwys y Cynllun Ariannol yn y Tymor Canolig 2020/21 - 2025/25, y Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn a'r Strategaeth Gyfalaf.

Dywedodd mai setliad grant 2020/21 ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys oedd £56.617m a bod rhai grantiau yn cael eu neilltuo. Tynnodd yr adroddiad sylw at rai pwysau gweithredol ond ar y cyfan rhoddodd sicrwydd bod y Prif Gwnstabl yn ymdopi â'r rhain yn ddigonol. Dywedodd y Cynghorydd Evans hefyd fod y gostyngiad yn y grant cyfalaf a'r ddibyniaeth ar gronfeydd wrth gefn ar gyfer buddsoddiadau mewn ystadau a seilwaith hanfodol y fflyd a TG yn rhoi pwysau cynyddol ar y gyllideb refeniw, a rhagwelwyd y byddai'r cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn gostwng i £6.642m erbyn 2024/25.

Dywedodd y Cynghorydd Evans ei fod yn cymeradwyo'r adroddiad, a oedd yn cynnig cynyddu'r praesept £1 bob mis ar eiddo Band D sy'n cyfateb i gynnydd o 4.83% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Diolchodd i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl am drefnu seminar cyllid a oedd yn cefnogi craffu ar yr adroddiad.

Dywedodd y Comisiynydd y byddai'r cynnydd arfaethedig yn y praesept yn cefnogi newidiadau yn y gweithlu a oedd yn cyfateb i 42 o swyddogion heddlu cyfwerth ag amser llawn ychwanegol a 24 aelod ychwanegol o staff cymorth cyfwerth ag amser llawn a fyddai'n cael effaith o £2.571m o ran y gyllideb. Byddai'r newidiadau hyn yn y gyllideb yn cefnogi buddsoddiadau o ran cysylltu â'r cyhoedd a mentrau diogelu rhag twyll.

Diolchodd y Panel i'r Cynghorydd Evans a'r Comisiynydd am eu hadroddiadau manwl, llawn gwybodaeth.

Mewn ymateb i ymholiadau ynghylch rheoli'r gweithlu, dywedodd y Comisiynydd fod staff cymorth yn cael eu defnyddio'n strategol i ryddhau amser y swyddogion heddlu a chynyddu eu presenoldeb mewn cymunedau lleol. Dywedodd fod yr amserlen ar gyfer recriwtio swyddogion heddlu yn cynnwys cynlluniau i recriwtio ym mis Mawrth a mis Medi, yn ogystal â derbyn trosglwyddeion ym mis Mehefin, gan gynyddu nifer y swyddogion heddlu i 1,180 erbyn diwedd 2020/21. Roedd yn hyderus fod gan yr Heddlu ddigon o adnoddau i hyfforddi swyddogion ychwanegol.

Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd y Comisiynydd fod Heddlu Dyfed-Powys wedi hyfforddi heddluoedd eraill i greu cyllid, ond bod hyn yn ddibynnol ar y galw a'r capasiti ac felly nid yw'n ffrwd cyllid y gallai'r Heddlu ddibynnu arno.

Gwnaed ymholiad ynghylch ymgysylltu â'r cyhoedd. Dywedodd y Comisiynydd fod gweithredu strategaeth troseddau gwledig newydd a'r ddesg agored i niwed wedi sicrhau gwelliannau o ran rhoi gwybod am droseddau a'u cofnodi.

Mewn ymateb i ymholiad am fuddsoddiadau i liniaru newid hinsawdd, dywedodd y Comisiynydd fod tanwariant cyllideb y llynedd wedi'i roi mewn cronfa cynaliadwyedd a bod yr Heddlu wedi cael 14 cerbyd trydan yn ddiweddar. Byddai'r seilwaith gwefru trydanol yn cael ei gefnogi gan fuddsoddiadau gwerth £350k dros y pum mlynedd nesaf.

Gofynnwyd pam roedd y cynnydd ym mhraesept Dyfed-Powys yn uwch na'r codiadau praesept yn Lloegr, sef £10 y flwyddyn ar gyfartaledd. Dywedodd y Comisiynydd fod gwahaniaethau o ran capio'r dreth gyngor, cyfraniadau pensiwn a'r uchelgais o wella gwasanaethauy wedi dylanwadu ar y penderfyniad. Dywedodd hefyd mai'r cynnydd arfaethedig hwn yn y praesept oedd yr isaf yng Nghymru.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo cynnig y Comisiynydd i gynyddu praesept Heddlu Dyfed-Powys 4.83% am 2020/21.**

## 6. ATAL TROSEDDAU

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar atal troseddau. Dywedodd y Comisiynydd fod yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth am y cefndir lleol a chenedlaethol ac yn rhoi amlinelliad o fentrau atal troseddau ei swyddfa megis digwyddiadau ymgysylltu, seilwaith teledu cylch cyfyng, ymyriadau ieuenctid ac ymgysylltu â rhanddeiliad.

Mewn ymateb i ymholiadau, dywedodd y Comisiynydd fod cyllid ar gyfer Timau Plismona Bro wedi'i ymrwymo ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Ar hyn o bryd, mae ei swyddfa'n gwerthuso effaith 'Knife Angel' ac yn ystyried cynlluniau at y dyfodol i roi'r un prosiect ar waith mewn ardaloedd eraill yn Nyfed-Powys mewn perthynas â themâu megis natur wledig a chamddefnyddio sylweddau.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

## 7. PENDERFYNIADAU A WNAED GAN Y COMISIYNYDD

Bu'r Panel yn ystyried adroddiad ynghylch y penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd rhwng 19 Hydref a 27 Ionawr 2020. Dywedodd y Comisiynydd fod yr adroddiad yn cynnwys rhai penderfyniadau a wnaed cyn mis Hydref 2019 nad oeddent wedi cael eu cynnwys mewn adroddiadau blaenorol.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

## 8. ADBORTH GAN FWRDD ATEBOLRWYDD YR HEDDLU AR 18 TACHWEDD 2019

Dywedodd y Cynghorydd Michael James y byddai adroddiad ysgrifenedig yn cael ei ddosbarthu i'r Panel ar ôl y cyfarfod.

## 9. PROTOCOL CWYNION

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i adroddiad ar brotocol cwynion diwygiedig y Panel. Dywedwyd wrth y Panel y byddai'r protocol diwygiedig yn galluogi'r Cadeirydd, mewn cydweithrediad â'r Swyddog Monitro, i werthuso cwynion yn unol â meini prawf penodedig er mwyn penderfynu a yw'r cwynion yn addas i'w hystyried gan y Panel. Nod y protocol diwygiedig oedd nodi'r achosion hynny sy'n camddefnyddio prosesau yn gynnar er mwyn galluogi'r Panel i ganolbwyntio ar gwynion y gellid sicrhau canlyniad ystyrlon mewn perthynas â hwy.

Mewn ymateb i ymholiad, dywedwyd wrth y Panel y byddai holl Aelodau'r Panel yn cael gwybod am gwynion hyd yn oed os oeddent yn cael eu gwrthod yn gynnar. Yn unol â deddfwriaeth, byddai cofnod di-enw o'r holl gŵynion a ddaw i law yn cael ei roi ar wefan y Panel.

**PENDERFYNWYD gwneud y canlynol**
**9.1. Derbyn yr adroddiad;**
**9.2. Mabwysiadu'r Protocol Cwynion diwygiedig ar unwaith.**

## 10. CYNHADLEDD FLYNYDDOL Y PANELI HEDDLU A THROSEDDU

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i adroddiad a chyflwyniadau o'r Gynhadledd Genedlaethol ar gyfer Paneli Heddlu a Throseddu. Cynrychiolwyd y Panel yn y gynhadledd gan yr Athro Ian Roffe, y Cynghorydd William Powell a'r Cynghorydd John Prosser. Dywedasant mai eu hargraff hwy oedd bod gwaith y Panel a'i gydweithrediad â'r Comisiynydd yn gadarnhaol wrth gymharu â phaneli eraill yn genedlaethol.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch arestio menywod, mynegodd y Comisiynydd ei siom na chyfeiriwyd at brosiect braenaru menywod Cymru gyfan yn y cyflwyniad.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

## 11. CYMDEITHAS GENEDLAETHOL Y PANELI HEDDLU (TÂN) A THROSEDDU

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i adroddiad ar Gymdeithas Genedlaethol y Paneli Heddlu (Tân) a Throseddu a atodwyd, ynghyd â'r cyfansoddiad a'r cylch gorchwyl diwygiedig. Dywedwyd wrth y Panel fod aelodaeth o'r Gymdeithas Genedlaethol yn y gorffennol wedi gofyn am ffi tanysgrifio a bod cyfyngiadau ar y defnydd o grant y Swyddfa Gartref yn golygu na allai'r grant gael ei ddefnyddio i dalu am y

tanysgrifiad. Yn ei Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Tachwedd 2019, penderfynodd y Gymdeithas Genedlaethol gynnig aelodaeth am ddim i'r holl baneli.

Gwnaed nifer o sylwadau yn awgrymu y byddai aelodaeth o'r Gymdeithas Genedlaethol yn rhoi cyfle i'r Panel ddylanwadu ar drafodaethau, codi proffil Cymru a chynrychioli Dyfed-Powys ar lefel genedlaethol.

**PENDERFYNWYD**

**11.1. Nodi'r adroddiad;**

**11.2. Bod y Panel yn ymuno â Chymdeithas Genedlaethol y Paneli Heddlu (Tân) a Throseddu.**

## 12. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 13. CWYN YN ERBYN Y PANEL HEDDLU A THROSEDDU GAN R.V.

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod rhif 13 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn rhoi gwybodaeth bersonol sensitif am aelod o'r cyhoedd yn y parth cyhoeddus.**

Cafodd y Panel adroddiad ar gŵyn a gofnodwyd yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

**PENDERFYNWYD**

**13.1. Nodi'r gŵyn;**

**13.2. Anfon adroddiad at yr achwynydd, ac at y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, gan fanylu ar ganlyniad y gŵyn.**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**